**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG
(CLIRFFORDD WLEDIG B4524 ABEROGWR (RHAN)
24 AWR) 2022**

1. Ar 10 Ionawr 2023, gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg wrth arfer ei bwerau dan Adrannau 1(1), 2, 2(1), 2(2), 2(3) ac 84 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau galluogi eraill Orchymyn a'i effaith gyffredinol fydd fel a ddisgrifir yn yr Atodlenni isod.
2. Daw'r Gorchymyn i rym ar 16 Ionawr 2023 neu ar y dyddiad y bydd yr arwyddion a'r marciau ffordd yn eu lle, p'un bynnag yw'r hwyraf a chyfeirir ato fel Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Clirffordd Wledig B4524 Aberogwr (Rhan) 24 Awr) 2022.
3. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r cynlluniau sy'n dangos yr ardaloedd yr effeithir arnynt ar wefan y Cyngor yn [www.bromorgannwg.gov.uk](http://www.bromorgannwg.gov.uk)
4. Os dymunwch gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad ydynt yn unol â'r pwerau a roddwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf yn ymwneud â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos o 16 Ionawr 2023, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Mae'r Gorchymyn Rheoli Traffig canlynol i'w ddiwygio fel a ganlyn: **Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio (Gorfodi Sifil) 2013**

**ATODLEN 1**

Ni fydd unrhyw berson, ac eithrio yn unol â chyfarwyddiadau neu â chaniatâd Cwnstabl yr Heddlu mewn iwnifform neu Warden Traffig yn achosi neu'n caniatáu i unrhyw gerbyd stopio ar unrhyw adeg ar y ddarn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2.

**ATODLEN 2**

**Mewnosodwch yn atodlenni map U5, V4, V5, W3, W4
Gorchymyn Clirffordd Wledig 24 Awr
B4524 Aberogwr**

O ffin de-orllewinol yr eiddo a elwir yn Dormy House tua'r de-orllewin
yn gyffredinol am oddeutu 1585 metr.

Dyddiedig 12 Ionawr 2023
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg, Yr Alpau, Gwenfô. CF5 6AA